

Mi ydw i'n hoffi ...

Cysyniadau: Cyfeillgarwch, ffyddlondeb, parchu, ymddiriedaeth.

Amcan: Dangos bod cariad yn gallu croesi ffiniau.

Cyfarpar: Llyfr, mwg pêl-droed, modrwy, planhigyn (neu unrhyw wrthrych arall).

Cyflwyniad:

● Dangos rhai o'r gwrthrychau i'r plant a dweud pam rydych chi'n eu hoffi. Hoffi'r llyfr am ei fod yn cynnwys stori dda. Hoffi'r mwg am eich bod yn cefnogi'r tîm. Hoffi'r fodrwy am eich bod wedi'i chael gan eich gŵr/gwraig ar ddydd eich priodas. Hoffi'r planhigyn am eich bod wedi'i gael gan eich ffrind gorau.

● Dangos pedair brawddeg ar y bwrdd gwyn:

Mi ydw i'n hoffi Pwt y gath.

Mi ydw i'n hoffi sglodion.

Mi ydw i'n hoffi Mam.

Mi ydw i'n hoffi fy mab/merch.

● Ydi 'Rydw i'n hoffi sglodion' yr un fath â 'Rydw i'n hoffi Mam'? Beth yn union ydi'r gwahaniaeth? Oni fyddai gair gwahanol yn well, 'Rydw i'n caru Mam', 'Rydw i'n caru fy mab/merch'. Mae 'caru' yn air cryfach ac yn dangos perthynas agos rhyngoch â'ch mam â'ch plentyn.

Stori:

Dyma stori o grefydd Islam. Mae cryn dipyn o sôn am y Mwslemiaid yn y newyddion y dyddiau hyn.

Roedd yna ddau frawd. Eu henwau oedd Aban ac Abdul. Roedd gan yr hynaf o'r ddau, Aban, wraig a thri o blant, merch o'r enw Aabish, a dau fab, Afsa ac Aftar.

Ond doedd gan y brawd ieuengaf, Abdul, ddim teulu. Doedd o ddim wedi priodi. Roedd Aban ac Abdul yn ffrindiau gyda'i gilydd ac yn rhedeg y fferm ar ôl i'w tad farw. Roedd y ddau yn rhannu popeth. Rhannu'r gwaith o ddydd i ddydd, rhannu'r tir er mwyn i'r ddau gael yr un faint. Ac adeg y cynhaeaf byddai'r ddau yn rhannu'r cnydau yn gyfartal. Pan oedd pethau'n ddrwg ar y fferm byddai'r ddau yn helpu'i gilydd.

Un diwrnod pan oedd Abdul, y mab ieuengaf, yn cerdded ar draws y caeau arhosodd yn sydyn ar ganol y cae.

'Mi ydw i wedi bod yn meddwl,' meddai wrtho'i hun. 'Mi ydw i newydd sylweddoli fy mod i'n byw ar fy mhen fy hun. Does gen i ddim gwraig na phlant i'w bwydo. Ond mae gan fy mrawd Aban wraig a thri o blant, Aabish, Afsa ac Aftar. Felly, mae'n bwysig iawn ei fod o'n cael mwy o wenith i fwydo ei deulu. Mi wn i beth wna i,' meddai Abdul.

Yna, wedi iddi nosi, aeth Abdul i'r sgubor lle'r oedd yn cadw'r gwenith a chariodd chwe sachaid o wenith a'u rhoi yn sgubor ei frawd.

Ymhellach ymlaen y noson honno pan oedd Aban y brawd hynaf ar ei ffordd adref, dyma yntau yn aros yn stond a dweud wrtho'i hun, 'Mi ydw i'n ddyn eithriadol o hapus. Mae fy mywyd yn llawn. Mae gen i wraig brydferth a thri o blant annwyl a dymunol. Ond does gan fy mrawd druan neb. Felly, mae'n bwysig ei fod o'n cael mwy o wenith.' Yna, aeth i'r stordy ar ei ffordd adref ac aeth â chwe sachaid o wenith i sgubor ei frawd bach.

Yn y bore, sylwodd y ddau frawd fod yr un faint o sacheidiau o wenith yn eu hysguboriau. Ond wnaeth yr un o'r ddau gyfaddef i'w gilydd beth oedden nhw wedi'i wneud.

Digwyddodd hyn o flwyddyn i flwyddyn. Roedd plant Aban wedi tyfu ac wedi gadael eu rhieni. Ond, yn ystod oriau'r nos, roedd y ddau frawd yn dal i roi sacheidiau o wenith i'w gilydd.

Trafodaeth bellach:

- Pa fath o berthynas oedd yna rhwng Aban ac Abdul?
- Oedd hi'n berthynas agos, gariadus?

Dyfyniad o'r Beibl:

Felly, os wyt yn y deml yn addoli Duw, ac yn cofio fod gan dy frawd rywbeth yn dy erbyn, gad yr offrwm a dos i wneud pethau'n iawn efo dy frawd ac yna tyrd a chyflwyno dy offrwm. Mathew 5:23-24 (aralleiriad)

Emyn: Dad, dy gariad yn glir ddisgleiria: Canu Clod 93

Munud i feddwl:

Er ein bod yn gallu hedfan i'r gofod, a phlymio i ddyfnderoedd y môr, eto i gyd dydyn ni ddim wedi dysgu byw fel brodyr.

Myfyrdod/Gweddi:

Mi ydw i'n hoffi sglodion. Ond yr hyn oedd y brodyr yn ei wneud oedd caru ei gilydd. Helpa ninnau i garu o ddifrif. Amen.